

2018 Rhif 74 (Cy. 19)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy a Chyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018

Gwnaed 23 Ionawr 2018

Yn dod i rym 28 Ionawr 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor (yr A55), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy a Chyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys a mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 28 Ionawr 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Caer i Fangor (yr A55).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwysu

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Ionawr 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Abergele, Conwy hyd at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy, Sir Ddinbych.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Cyffordd 25 (Bodelwyddan) a Chyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).